WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2007/2008

Chwefror 2008

**Awduron: Rob Powell a Gilbert Lloyd** **Cyf: 267A2008**

# Cynllun Rheoleiddio 2007/2008

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn eich Awdurdod** | 4 |
| **Gwaith yr Archwilydd Penodedig** | 6 |
| Archwilio cyfrifon | 6 |
| Casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian | 8 |
| Archwilio eich Cynllun Gweithredu/Gwella Blynyddol | 8 |
| **Gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol** | 9 |
| Gwaith perfformiad lleol | 9 |
| Arolygiadau | 10 |
| Astudiaethau llywodraeth leol | 10 |
| Gwaith arall Swyddfa Archwilio Cymru | 10 |
| **Gwaith rheoleiddwyr eraill** | 11 |
| **Atodiadau** | |
| Y Tîm Rheoleiddio | 12 |
| Rôl a chyfrifoldebau | 13 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.


Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn eich Awdurdod


1. Sefydlwyd rôl y Rheolwr Cydberthnasau fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer Llywodraeth Leol. Y Rheolwr Cydberthnasau sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r holl waith archwilio ac arolygu mewn cyrff Llywodraeth Leol penodol.
2. Yn unol â hynny, mae'r Rheolwr Cydberthnasau wedi paratoi'r Cynllun hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol). Mae'n nodi'r gwaith i'w gyflawni gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a chan ei archwilwyr penodedig. Mae hefyd yn ymdrin â gwaith y Tîm Asesu Cymheiriaid wrth gynnal yr asesiad gweithredol. Caiff ei ategu gan Gynllun Cyfrifon Ariannol manylach a chynlluniau prosiect manylach ar gyfer pob prosiect archwilio neu arolygu perfformiad. Rydym wedi cynllunio rhaglen waith i fynd i'r afael â'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol sy'n effeithio ar ein cyfrifoldebau.
3. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ddau brif faes:
   - archwiliad ariannol; a
   - gwaith perfformiad (archwilio ac arolygu gwerth am arian).

   Ceir crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd o dan y cynllun hwn yn Arddangosyn 1. Yn ogystal, mae Arddangosyn 7 ar dudalen 11 yn nodi gwaith rheoleiddwyr eraill.

**Arddangosyn 1a: Gwaith a gyflawnwyd o dan y cynllun hwn: gwaith yr Archwilydd Penodedig**



**Arddangosyn 1b: Gwaith a gyflawnwyd o dan y cynllun hwn: Gwaith a gyflawnwyd ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**




4. Mae holl aelodau'r Tîm Rheoleiddio yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a'ch swyddogion. Yn ogystal, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i ni dynnu eich sylw ato. Nodir enwau cyswllt priodol yn Atodiad 1.
5. Nodir rolau a chyfrifoldebau'r Tîm Rheoleiddio yn Atodiad 2.
6. Byddwn mewn cyswllt agos â'r Awdurdod:
   - wrth gwblhau'r Cynllun Cyfrifon Ariannol manylach a byddwn yn eich hysbysu'n rheolaidd o unrhyw risgiau neu faterion wrth iddynt godi; ac
   - o ran amseriad, cwmpas a'r broses o gyflawni'r gwaith perfformiad, a all gymryd mwy nag un cylch archwilio i'w gwblhau.
7. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith wedi'i gynllunio'n briodol, a gall fod angen gwneud newidiadau i'r Cynllun os bydd unrhyw risgiau newydd sylweddol yn codi. Ni wneir unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion, a lle y bo'n berthnasol y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
8. Y ffi arfaethedig ar gyfer 2007/2008 yw £52,631 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2007 a mis Hydref 2008. Mae'r ffi yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n gynnydd o 2.8 y cant o gymharu â'r ffi yn 2006/2007. Nodir ein ffi yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Y ffi**

| Maes y Cod | Ffi 2006/2007 £ | Ffi arfaethedig 2007/2008 £ |
|---|---:|---:|
| Cyfrifon | 32,478 | 25,150 |
| Archwilio Perfformiad | 8,974 | 17,420 |
| Arolygu Perfformiad | 9,740 | 10,061 |
| **Cyfanswm** | **51,192** | **52,631** |

9. Byddwn yn llunio Calendr Rheoleiddio yn dangos yr holl waith presennol neu waith arfaethedig sydd i'w gyflawni gan y rheoleiddwyr yn yr Awdurdod. Byddwn yn ei rannu â'r Awdurdod a'r holl reoleiddwyr ac yn ei ddiweddaru'n chwarterol.

# Gwaith yr Archwilydd Penodedig

10. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penodi Anthony Snow fel yr archwilydd allanol ar gyfer yr Awdurdod, gyda'r archwiliad yn cael ei gyflawni ar ei ran gan Gilbert Lloyd o KPMG LLP fel y Partner Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad.

## Archwilio cyfrifon

11. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gyhoeddi adroddiad archwilio ar y Datganiadau Ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- P'un a yw'r Datganiadau Ariannol yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd bod y Datganiadau Ariannol:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- A yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol wedi'i gyflwyno yn unol â gofynion perthnasol ac nad yw'n anghyson â'n gwybodaeth o'r Awdurdod.

12. Er mwyn cyflwyno'r adroddiad a'r farn archwilio ar y Datganiadau Ariannol, rhaid i'r Archwilydd Penodedig sicrhau y nodir yr holl risgiau archwilio sy'n gysylltiedig â'r uchod, ac yr eir i'r afael â hwy. Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r risgiau, a nodir y rhain yn Arddangosyn 3 Cyfrifon Ariannol.

**Arddangosyn 3: Cyfrifon Ariannol**

| Risg Cyfrifon Ariannol | Cwestiynau allweddol |
|---|---|
| Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU - Datganiad o'r Arfer a Argymhellir yn cyflwyno rhai newidiadau pellach pwysig i'r modd y cedwir cyfrifon Awdurdodau Tân ac Achub o 1 Ebrill 2007. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:<br>• Ymgorffori Safonau Adrodd Ariannol 25, 26 a 29 sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol.<br>• Gofyniad i ddisodli'r Cyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog gyda Chronfa Ailbrisio Wrth Gefn. | A yw Datganiadau Ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol a gofynion cymwys eraill yn cynnwys y Datganiad newydd o'r Arfer a Argymhellir? |

| Risg Cyfrifon Ariannol | Cwestiynau allweddol |
|---|---|
| Newidiodd y trefniadau ariannu ar gyfer pensiynau'r gwasanaeth tân o 1 Ebrill 2007. O dan y trefniadau newydd mae'n ofynnol i bob awdurdod tân weithredu Cyfrif Pensiwn a nodir y symiau a delir i mewn ac allan o'r cyfrifon gan reoliadau.<br>Bydd y Cyfrif Pensiwn yn ymddangos fel datganiad incwm a gwariant ar wahân a datganiad asedau net yn natganiad cyfrifon awdurdodau. | A yw Datganiadau Ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion newydd o ran Cyfrifon Pensiwn y Gwasanaeth Tân? |
| Yn ddiweddar cyhoeddodd CIPFA/SOLACE 'Good Governance in Local Government – Framework', sy'n adlewyrchu'r egwyddorion a geir yn 'Good Governance Standards for Public Services'.<br>Mae'r Datganiad Llywodraethu sy'n ofynnol gan y Fframwaith yn cynnwys y Datganiad o Reolaeth Fewnol presennol a deallir mai'r bwriad yw i'r Datganiad Llywodraethu ddod yn ofynnol o 2007/2008, er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto. | A oes gan yr Awdurdod y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth newydd?<br>A oes gan yr Awdurdod y prosesau a'r gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau y cesglir y dystiolaeth a'r sicrwydd angenrheidiol i ategu unrhyw ddatganiad newydd? |
| Mae'n rhaid i'r Awdurdod gwblhau pecyn cyfuno i ategu'r broses o gyfuno cyfrifon adnoddau'r sector cyhoeddus. | A yw pecyn Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yr Awdurdod ar gyfer 2007/2008 yn cyflwyno gwybodaeth ariannol yn deg? |

13. Bydd yr Archwilydd Penodedig yn diweddaru'r asesiad risg hwn yn ystod y flwyddyn a bydd yn llunio Cynllun Cyfrifon Ariannol manylach cyn i unrhyw waith gael ei gwblhau.
14. Bydd yr Archwilydd Penodedig yn adolygu systemau'r Awdurdod i sicrhau, mesur a dangos enillion effeithlonrwydd. Bydd yr archwilydd penodedig hefyd yn gwneud sylwadau ar yr enillion cyffredinol a ddatganwyd gan yr Awdurdod, ac a yw wedi cyflawni ei dargedau o ran enillion effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn ai peidio.
15. Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:
    - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
    - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; a
    - pharatoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

## Casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian

**16.** Mae gan yr Archwilydd Penodedig ddyletswydd i fodloni ei hun bod y corff a archwilir ac a arolygir wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar adolygu'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol allweddol y mae'n ofynnol i chi eu rhoi ar waith fel rhan o'ch system rheolaeth fewnol.

**17.** Bydd adolygiad yr Archwilydd Penodedig o'ch trefniadau yn cynnwys yr agweddau canlynol:

- amcanion strategol a gweithredol;
- llunio polisi a gwneud penderfyniadau;
- diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr;
- rheolaethau mewnol;
- rheoli risg;
- Gwerth gorau;
- rheoli adnoddau;
- rheoli perfformiad; a
- safonau ymddygiad.

**18.** Bydd casgliad yr Archwilydd Penodedig ar fodolaeth eich trefniadau yn defnyddio, yn bennaf, dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwaith archwilio arferol ar holl feysydd y Cod. Bydd y casgliad hefyd yn ystyried unrhyw ffynonellau tystiolaeth perthnasol eraill sydd ar gael, megis canlyniadau astudiaethau ac arolygiadau o waith perfformiad lleol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

**19.** Rydych yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi, gyda'ch Datganiadau Ariannol, ddatganiad a wnaed gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn ymwneud â'u hadolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol.

## Archwilio eich Cynllun Gweithredu/Gwella Blynyddol

**20.** Mewn perthynas â'ch Cynllun Gwella, mae'n ofynnol i'r archwilydd gyhoeddi adroddiad:

- yn ardystio ei fod wedi archwilio'r Cynllun;
- yn datgan a yw o'r farn i'r Cynllun gael ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol ag Adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1999<br>(Deddf 1999) ac unrhyw orchymyn neu ganllawiau o dan yr adran honno;
- yn argymell, os yw'n briodol, sut y dylid ei ddiwygio er mwyn cydymffurfio ag Adran 6 ac unrhyw orchymyn neu ganllawiau o dan yr adran honno;
- os yw'n briodol, argymell gweithdrefnau i'w dilyn gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r Cynllun;
- yn argymell a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad gwerth gorau o'r Awdurdod o dan adran 10A o Ddeddf 1999;
- yn argymell a ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o Ddeddf 1999.

# Gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol

21. Ni chaiff gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ei gwblhau o fewn un cylch archwilio bob tro. Mae natur gwaith perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) yn benodol yn golygu y caiff ei ddatblygu a'i gyflawni dros gyfnod hwy ac fel rhan o raglen dreigl sy'n hyblyg ac yn ymateb i newidiadau allanol.
22. Cyflwynir adroddiad ar yr holl waith a gyflawnwyd ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar ddiwedd pob blwyddyn yn y Llythyr Blynyddol i'r Awdurdod a gyflwynir gan y Rheolwr Cydberthnasau a'r Archwilydd Penodedig.

## Gwaith perfformiad lleol

23. Rhestrir y risgiau a nodwyd (yn lleol ac yn genedlaethol) fel rhan o'r asesiad risg yn Arddangosyn 4.

**Arddangosyn 4: Gwaith Archwilio Perfformiad**

| **Archwilio Perfformiad ar sail Risg** | |
|---|---|
| **Risg** | **Cwestiynau Allweddol** |
| **Astudiaethau perfformiad lleol** | |
| Mae twyll a llygredd yn costio miliynau o bunnoedd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Mae felly yn hollbwysig fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ac effeithiol ar waith i atal a chanfod twyll a llygredd. | A oes gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ac effeithiol ar waith i atal a chanfod twyll a llygredd? |
| Erys TG yn hanfodol i weithredu a chyfrifyddu'r Awdurdod yn effeithlon. | A oes gan yr Awdurdod drefniadau rheoli TG cyffredinol priodol ar waith? |
| **Trefniadau - rheoli ariannol** | |
| Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu pwysau ariannol, ynghyd â disgwyliadau i gyflawni ymrwymiadau cynyddol a gwella gwasanaethau.<br>Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn monitro ei berfformiad ariannol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r holl amcanion allweddol o fewn ei gyllideb. | A yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer pennu'r gyllideb a monitro perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn yn ddigonol? |
| **Trefniadau - rheoli perfformiad** | |
| Archwiliad o'r Cynllun Gweithredu/Gwella Blynyddol a dangosyddion perfformiad. | A yw Cynllun Gweithredu/Gwella Blynyddol yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol?<br>A yw data priodol am berfformiad yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i fonitro perfformiad yr Awdurdod yn rheolaidd? |

## Arolygiadau

24. Mae a wnelo'r broses arolygu â chraffu cyfnodol ar wasanaethau mewn modd wedi'i dargedu, er mwyn ymchwilio iddynt yn annibynnol a chyflwyno adroddiad ar b'un a yw gwasanaethau yn cyrraedd safonau perfformiad cenedlaethol a lleol, yn bodloni gofynion deddfwriaethol a phroffesiynol, ac yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
25. Yn ei hanfod bydd y gwaith arolygu yn golygu diweddaru'r Asesiad Risg ar y Cyd, yn cynnwys staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cysgodi'r Tîm Asesu Cymheiriaid wrth gynnal yr asesiad gweithredol, a diweddaru'r asesiad anweithredol. O fewn y gwaith anweithredol hwn i lywio'r Asesiad Risg ar y Cyd, byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar feysydd penodol y cytunir arnynt â'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Gallai'r meysydd hyn gynnwys gwaith dilynol ar ein hadroddiad rheoli perfformiad cynharach.

## Astudiaethau llywodraeth leol

26. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd i gynnal astudiaethau o feysydd risg penodol neu gyfleoedd mewn llywodraeth leol. Bydd astudiaethau'r Archwilydd Cyffredinol mewn llywodraeth leol yn aml, ond nid bob amser, yn cynnwys pob un o'r awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub a gallant fod yn rhan o astudiaeth drawsbynciol neu astudiaeth systemau cyfan ehangach.
27. Mae Arddangosyn 5 isod yn nodi'r gwaith i'w gyflawni fel rhan o'r astudiaethau llywodraeth leol:

**Arddangosyn 5: Astudiaethau Llywodraeth Leol**

| Amseru | Gwaith Arfaethedig |
|---|---|
| **Rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol yr Archwilydd Cyffredinol (Cymru gyfan) *** | |
| Creu'r Cysylltiadau: rheoli asedau | A yw'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau, ar y cyd, fod eu dull o reoli asedau fflyd a cherbydau yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau i helpu i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau? |
| Cyfnewidfa Arfer Da | Y cwmpas i'w gadarnhau. |

* Ariennir y rhain yn llawn drwy Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

## Gwaith arall Swyddfa Archwilio Cymru

28. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni gwaith arall a allai effeithio ar Awdurdodau Tân ac Achub fel y nodir yn Arddangosyn 6. Mae'n cynnwys gwaith a gyflawnwyd fel rhan o:
    - bortffolio Archwilydd Cyffredinol Cymru o astudiaethau perfformiad cenedlaethol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol;
    - gwaith pwrpasol arall.

**Arddangosyn 6: Gwaith Arall Swyddfa Archwilio Cymru**

| |
|---|
| Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (astudiaeth genedlaethol yn arwain at adroddiad i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol). |
| Rheoli'r perygl o lifogydd arfordirol. |

## Gwaith rheoleiddwyr eraill

29. Noda Arddangosyn 7 y gweithgarwch rheoleiddio arall sy'n hysbys ar hyn o bryd. Yn ei hanfod mae'n ymwneud â gwaith Tîm Asesu Cymheiriaid Llywodraeth y Cynulliad. Caiff y gwaith hwn a gwaith arall a all godi ei gynnwys pan ddiweddarir y Calendr Rheoleiddio.

**Arddangosyn 7: Gweithgarwch rheoleiddio arall**

| | |
|---|---|
| Tîm Asesu Cymheiriaid | Asesiad gweithredol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella Gwasanaethau Tân |
| Bydd yn ystyried argyfyngau andwyol mawr, gyda phwyslais penodol ar lifogydd, a disgwylir ei gynnal ym mis Ionawr a mis Chwefror 2008. | |

# Atodiad 1

## Y Tîm Rheoleiddio

| Enw | Rôl | Ffôn | E-bost |
|---|---|---|---|
| Rob Powell | Rheolwr Cydberthnasau | 02920 262677<br>07980 637686 | Rob.Powell@wao.gov.uk |
| Gilbert Lloyd | Partner Ymgysylltu | 02920 468090<br>07770 570683 | Gilbert.Lloyd@kpmg.co.uk |
| Catherine Griffiths | Y Rheolwr Archwilio | 02920 468014<br>07770 700238 | Catherine.Griffiths@kpmg.co.uk |
| Alan Morris | Partner Ymgysylltu Perfformiad | 07818 427472 | Alan.Morris@wao.gov.uk |
| John Weston | Rheolwr Prosiect Perfformiad | 07766 071932 | John.Weston@wao.gov.uk |

Atodiad 2

# Rolau a chyfrifoldebau

Sefydlwyd swydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bellach). O 1 Ebrill 2005, ymestynnodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gynnwys penodi archwilwyr allanol ar gyfer cyrff llywodraeth leol, a chynnal archwiliadau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella (Deddf 1999).

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Mae pwerau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol, a rôl y Rheolwr Cydberthnasau, yn deillio o Ddeddf 1999 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

## Archwilwyr Penodedig

Mae'n rhaid i archwilwyr penodedig gynnal archwiliad sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt o dan Ddeddf 1999 a Deddf 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i'r archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau.

O dan Adran 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru gynhyrchu datganiadau cyfrifon blynyddol[1]. Mae Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant Llywodraeth y Cynulliad yn ategu'r rheoliadau hyn gyda chanllawiau i gynorthwyo cyrff llywodraeth leol i weithredu eu cyfundrefn gyfrifyddu. Ni fwriedir i'r canllawiau hynny fod yn rhan o'r fframwaith statudol ond maent yn sylwadaeth anffurfiol ac yn rhoi manylion ynghylch ble y gellir dod o hyd i godau cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol sy'n nodi arferion priodol.

O dan Adran 13 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru sicrhau yr archwilir eu cyfrifon gan un neu fwy o archwilwyr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 14 o'r Ddeddf. Mae adrannau 17 a 23 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig archwilio ac ardystio'r cyfrifon, gan fodloni eu hunain:

- bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru);
- bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
- bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i gasglu, cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth am safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan unrhyw gyfarwyddyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf.

[1] Gwneir y rheoliadau hyn gan y Cynulliad o dan y pwerau statudol a geir yn Adran 39 o Ddeddf 2004.

## Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260

- Mae Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 260 yn rhoi canllawiau ar gyfleu 'materion perthnasol sy'n ymwneud â'r archwiliad' o Ddatganiadau Ariannol rhwng archwilwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu corff a archwilir.
- Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd penodedig gyflwyno adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) ar faterion penodol cyn iddynt roi barn ar y Datganiadau Ariannol.

Bydd yr archwilydd penodedig yn cyflawni'r cyfrifoldeb o fod yn atebol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a, lle y bo angen, i'r Cabinet yn amserol, cyn cwblhau archwiliad.

## Rheolwyr Cydberthnasau

Mae pwerau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol, a rôl y Rheolwr Cydberthnasau, yn deillio o Ddeddf 1999 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2004. Mae Deddf 1999 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau. Noda Cylchlythyr 28/2005 Llywodraeth y Cynulliad sut y dylid rhoi Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar waith, yn cynnwys rôl y Rheolwr Cydberthnasau.

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk